



Lower Carbon

100
1920-2020



Buchod Cwta Amryliw ym Mhrifysgol Abertawe – cyngor i staff a myfyrwyr



Minimal Waste



Biodiverse
Campuses



Sustainable
Travel



Beth yw'r rhain?

Mae buchod cwta amryliw yn rhywogaeth ymledol o fuchod cwta. Maent yn hanu o Asia yn wreiddiol ond cawsant eu cyflwyno i America ac Ewrop i reoli pryfed gleision ar gnydau. Cyrhaeddodd nhw'r DU yn 2004 a bellach, maent yn gyffredin iawn ledled Cymru a Lloegr.

Sut gallaf eu hadnabod?

Maent ychydig yn fwy na'r rhan fwyaf o'n rhywogaethau o fuchod cwta cyffredin brodorol ond gallant amrywio'n fawr iawn o ran eu golwg. Yn aml, maent yn oren neu'n goch, gyda llawer o smotiau duon, neu gallant fod yn ddu gyda dau smotyn mawr coch neu oren, ond gweler uchod am amrywiadau eraill.

Beth yw'r problem?

Maent yn ysglyfaethwyr gwancus, ac maent yn cystadlu'n llwyddiannus yn erbyn ein buchod cwta brodorol am fwyd, a phan fydd pryfed gleision yn brin, maent yn troi at bryfed eraill, gan gynnwys bychod cwta brodorol a'u buchod cwta ifainc. Nhw yw prif achos y cwmp mewn niferoedd rhywogaethau brodorol o fuchod cwta.

Beth mae angen i mi ei wybod?

Yn aml, bydd buchod cwta amryliw yn symud i mewn i adeiladau yn yr hydref i aeafgysgu ar y cyd mewn grwpiau mawr, gan ddod allan eto pan ddaw'r gwanwyn, weithiau i swyddfeydd a darlithfeydd.

Beth dylwn ei wneud os byddaf yn dod ar eu traws?

Peidiwch â phoeni – yn gyffredinol, nid ydynt yn beryglus i bobl (er fel pob math o fuchod cwta, nid ydynt yn ymosodol ond gallant gnoi). Os gallwch eu casglu mewn



Positive
Procurement



Wellbeing
and Health



Culture and
Community



Knowledge
and Skills

gwydr gyda darn o gardbord, gallwch eu rhyddhau yn yr awyr agored. Maent mor gyffredin, fyddwch chi ddim yn cyfrannu at y broblem. Os bydd gormod ohonynt i chi ymdrin â nhw ar eich pen eich hun, cyflwynwch gais i'r glanhawyr drwy ddesg gymorth ystadau <https://quemis.swan.ac.uk/helpdesk/users/login.asp>.